
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Pontydd Betws y Coed

**HAWDD**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 OS 100022403
© Crown copyright and database rights 2022 OS 100022403


### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 3.6km (2.2 milltir)
- Hyd: 45 munud
- Math o daith: Cylchdaith

### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru





V-20230519/1323

1




Gadewch y maes parcio a cherddwch tuag at Ganolfan Groeso y Parc Cenedlaethol. Ewch heibio'r ganolfan a pharhau i ddilyn y lôn nes i chi gyrraedd y briffordd (A5). Trowch i'r dde ar ôl cyrraedd y briffordd a dilyn y palmant drwy'r pentref. Dylai'r afon fod ar eich dde. Trowch i'r dde pan gyrhaeddwch Pont y Pair a'i chroesi.

2




Ar ôl croesi Pont y Pair, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr sy'n arwain drwy'r coed ac ar hyd glan yr afon. Dylai'r afon fod ar eich chwith.

3




Gwyrwch i'r chwith pan gyrrhaeddwch fforch yn y llwybr a pharhewch yn eich blaen.

4




Pan gyrrhaeddwch ardal bicnic, cerddwch rhwng y graig a'r bwrdd picnic, gan ddilyn y llwybr o amgylch y graig. Ewch drwy'r giât mochyn a pharhewch ar hyd llwybr ar lan yr afon.

5



Byddwch yn cyrraedd giât mochyn arall. Ewch drwy'r giât a pharhewch i ddilyn y llwybr drwy'r coed nes i chi gyrraedd pont arall.

6



Dyma Bont y Mwynwyr. Croeswch y bont a dringwch i fyny'r grisiau carreg tuag at y briffordd (A5).

7



Trowch i'r chwith ar ôl cyrraedd y briffordd (A5) a cherddwch ar hyd y palamant yn ôl i Fetws y Coed.

8



Pan gyrrhaeddwch Westy'r Royal Oak yng nghanol y pentref, trowch i'r chwith wrth yr arwyddbost du i ddychwelyd yn ôl i'r maes parcio.